

PENNOD 13: CAEL LLOCHES

Eseia 19.25

Bendith ar yr Aifft, fy mhobl, ac ar Assyria, gwaith fy nwylo, ac ar Israel, f'etifeddiaeth

Er bod geiriau Eseia yn perthyn i'w broffwydoliaeth am waredigaeth o Fabydon, maent yn cynnwys addewid cyffredin yn ymwneud â gwaredigaeth Iddew a Chenedl-ddyn – y byd cyfan, gan gynnwys y wlad a roddodd lloches i'r Teulu Sanctaidd.

Y mae gan yr Aifft a theithiau i'r Aifft ac oddi yno le amlwg yn stori'r Beibl. Mae'n wlad o loches, lle cafodd Abraham groeso, ac wedyn Jacob a'i feibion. Yno hefyd y cafodd Jeroboam loches rhag Ild Solomon, a byw i ddychwelyd i waredu Israel o iau Rehoboam, mab Solomon. Mae'n wlad o gaethiwed hefyd a chaethwasiaeth, a hanes Moses a arweiniodd y bobl i ryddid trwy'r anialwch mor bell ag afon yr Iorddonen. Un thema sydd gan yr holl hanesion hyn, sef gwaredigaeth trwy law Duw.

I ddiogelwch y wlad hon y cymerwyd y baban Iesu gan ddychwelyd oddi yno yng nghyflawnder amser. Dwywaith mae'r proffwyd Hosea yn sôn wrth y bobl am addewid gwaredigaeth. Defnyddia'r darlun o'i wraig syrthiedig wrth drafod ymwneud Duw a'r genedl bechadurus:⁷⁹ "Am hynny, wele, fe'i denaf; af â hi i'r anialwch, a siarad yn dyner wrthi... Yna fe ymetyb hi fel yn nyddiau ei hieuenctid, fel yn y dydd y daeth i fyny o'r Aifft." Nes ymlaen defnyddia ddarlun o dad a'i fab: "Pan oedd Israel yn fachgen fe'i cerais, ac o'r Aifft y gelwais fy mab."⁸⁰ Llais yn gweiddi sydd gan Eseia: "Llais un yn galw, paratowch yn yr anialwch ffordd yr Arglwydd, unionwch yn y diffeithwch briffordd i'n Duw ni... Datguddir gogoniant yr Arglwydd, a phawb ynghyd yn ei weld. Genau'r Arglwydd a lefarodd"⁸¹

Croniclwyd hanes ail freuddwyd Joseff gan Fathew pan gafodd orchymyn: "Cod, a chymer y plentyn a'i fam gyda thi, a ffo i'r Aifft..." Defnyddia Mathew⁸² yr un ferf Roeg, sef *phuge*, sy'n cael ei gyfeithu fel 'ffoi'. Mae'n bosibl nad cyd-ddigwyddiad yw cael ryn ferf yng nghyfeithiad Groeg LXX o hanes Moses: "Pan glywodd Pharo am hyn, ceisiodd ladd Moses, ond ffodd hwnnw oddi wrtho a mynd i fyw yng ngwlad Midian..."⁸³

Ond nes ymlaen newidiodd y ferf i *anechôresen*, (*wedi ymadael* berf a ddefnyddiodd Mathew nifer o weithiau. Un nodwedd amlwg yn hanes Mathew yw'r tebygrwydd i hanes Israel yn yr Aifft yn Llyfr Ecsodus.⁸⁴ Defnyddia'r Hen Destament yr Aifft a Pharo i gyfleu darlun o ddiffyg cred, calon-galedi a grym bydol noeth, yr un darlun sydd gan Mathew o Herod. Mae lladd bechgyn Bethlehem ar orchymyn Herod yn cyfateb i orchymyn Pharo, "Tafllwch i'r Neil bob mab a enir i'r Hebraid."⁸⁵ Cafodd Moses orchymyn i ddychwelyd i'r Aifft gyda'i deulu tra dywedir i Joseff⁸⁶ fynd adref i Nasareth gyda Mair a'r baban.

Yn ôl rhai traddodiadau Iddewig, roedd gosod y plentyn Moses yn yr afon yn ddatguddiad, nid yn unig yn ddatguddiad o empathi gyda chyflwr yr Hebraid ond hefyd y cam cyntaf yn eu gwaredigaeth. Dywed y traddodiadau hyn i Pharo orchymyn taflu pob bachgen newydd-anedig i'r dŵr am i'w sêr-ddewiniaid broffwydo y byddai gwaredwr Israel yn cael ei ladd gan ddŵr. Dywedir bod y broffwydoliaeth hon wedi cael ei chyflawni ddeugain mlynedd wedyn pan rwystrwyd Moses rhag mynd i mewn i Wlad yr Addewid gan "ddyfroedd ymryson." Â'r traddodiadau hyn ymlaen i ddweud i'r sêr-ddewiniaid ddatgan wrth Pharo bod un a dyngedwyd i waredu pobl Israel wedi ei daflu i'r dŵr eisoes a diddymwyd gorchymyn Pharo. Dyma'r bachgen tri-mis oed a'i ran yn y digwyddiadau yn gwbl oddefol eisoes yn cyflawni ei ran fel gwaredwr ei bobl, yn union fel yr Iesu bach yn Efengyl Mathew.

Cafodd Moses ei achub ond lladdwyd y bechgyn eraill trwy orchymyn y brenin. Nes ymlaen, dyma'r tywysog yn aberthu popeth er mwyn bod yn waredwr yn ôl gorchymyn Duw. Yn yr un ffordd yn yr Efengyl, arbedwyd Tywysog llawer mwy adeg ei eni tra bod bechgyn eraill yn cael eu lladd ond aeth hwnnw ymlaen i achub holl blant Duw trwy aberthu ei hunan. Codwyd Moses o'r Neil: cododd Iesu allan o'r Iorddonen i dechrau ar ei weinidogaeth.

Bu farw Herod. Wrth i Joseff baratoi i fynd a'i deulu bach adref, cafodd ei orchymyn i beidio â dychwelyd i Jwdea am fod mab Herod, Herod Antipas, yn teyrnasu yno yn awr. Felly, yn Llyfr Ecsodus, dywed yr Arglwydd wrth Moses: "Dos yn ôl i'r Aifft, oherwydd mae pawb oedd yn ceisio dy ladd bellach wedi marw."⁸⁷

Ac ar y ffordd trwy'r anialwch, dywedodd Moses wrth y bobl: ""Dywedodd yr Arglwydd wrthyf... 'codaf iddynt o blith eu cymrodyr broffwyd fel ti; a rhof fy ngair yn ei enau, er mwyn iddo fynegi iddynt y cwbl y byddaf yn ei orchymyn iddo."⁸⁸

Gweithredodd Joseff ar unwaith ar y gorchymyn a mynd â'r fam a'i phlentyn i Nasareth, tref anghysbell iawn, lle cawsant eu cuddio fel petai am dri deg mlynedd, fel y bu Moses yng ngwlad Midian, ac y diflannodd Ioan i blith yr Esseniaid am gyfnod tebyg i'w gefnder.

Bu tipyn o drafod ymhlith ysgolheigion ynghylch llysenw a roddwyd i Iesu. Defnyddir y gair Cymraeg 'Nasaread' i gyfeithu tri gair Groeg sy'n troi i'r Saesneg fel 'Nazarean, Nazorean a Nazarene.'⁸⁹ Defnyddir y ddau air Saesneg cyntaf i gyfeirio naill ai at Iesu fel un o dref Nasareth neu at ddilynwr Iesu. Dyna enw ar ddilynwr Crist gan yr Iddewon hyd nes i genedl-ddynion Antiochia fathu enw newydd iddynt, sef 'Cristnogion.'

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

Ond ymddengys fod Mathew yn dilyn arfer y rabiniaid o chwarae gyda geiriau. Honna John Calfin a phobl eraill fod y gair 'Nasared' yn tarddu o air Hebraeg a sŵn tebyg sy'n golygu 'i gysegru.' Ceir dwy enghraifft arbennig o'r gair yn yr Hen Destament, sef Samson a Samuel. Cysegrwyd Samson felly: "y mae'r bachgen i fod yn Nasaread i Dduw o'r groth."⁹⁰ Cafodd Samuel ei gysegru gan ei fam, Hanna i wasanaeth Duw: "rhoddaf ef i'r Arglwydd am ei oes, ac na ellir ei ben byth."⁹¹ Barn ysgolheigion eraill yw bod y gair yn tarddu o air tebyg am 'blaguryn' gan gysylltu'r gair ag un o adnodau Eseia: "O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn, ac fe dyf cangen o'i wraidd ef."⁹² Disgrifiad Eseia o'r Gwas Dioddefus yw "Fe dyfodd o'i flaen fel blaguryn ac fel gwreiddyn mewn tir sych."⁹³

Anodd dweud a yw Mathew yn cymharu'r tri gair Groeg (Saesneg: *Nazarene*, *Nazorene* a *Nazarite*) yn fwrriadol ai peidio ond yr hyn sy'n amlwg yw y byddai ei ddarllenwyr cyntaf, Cristnogion Iddewig yn ymwybodol o'r cysylltiad. Soniodd Iesu hefyd am Foses yn yr anialwch: "Bwytaodd eich hynafiaid y manna yn yr anialwch, ac eto buont farw. Ond dyma'r bara sy'n disgyn o'r nef, er mwyn i rywun gael bwyta ohono a pheidio â marw. Myfi yw bara'r bywiol a ddisgynnodd o'r nef. A'r bara sydd gennyf i'w roi yw fy nghnawd; a'r roi a wnafr dros fywyd y byd."⁹⁴ Dilynyr yr un thema gan Paul wrth iddo sôn am "ein hynafiaid" wrth gynulleidfa o genedl-ddynion.⁹⁵ (Yr un modd disgrifia'r Eglwys fel "Israel Duw"⁹⁶ mewn llythyr arall at genedl-ddynion Cristnogol.) Bydd Cristnogion Corinth, a mannau eraill, yn cael eu profi fel eu hynafiaid ysbrydol (o Israeliad) yn yr anialwch. Cafodd yr Hebraeid eu harwain gan yr Arglwydd "yn mynd o'u blaen mewn colofn o niwl yn ystod y dydd, ac mewn colofn o dân yn ystod y nos i'w goleuo; fel y gallent deithio dydd a nos."⁹⁷ Aethant trwy'r Môr Coch heb i'r dŵr gyffwrdd â hwy. Roedd eu hundod Moses yr un peth â phe bai "iddynt i gyd gael eu bedyddio i Moses."⁹⁸ Yn yr un modd, caiff yr Israel Newydd ei bedyddio i mewn i Grist, sy'n gwaredu, arwain a gwarchod ei bobl. Gras Duw sydd yma, sef ei gariad at y rhai nad oes iddynt unrhyw hawl arno, cariad 'r rhaid nad ydynt yn ei haeddu. Hawlia Paul fod yna gysylltiad rhwng y Manna, "y bara o'r nefoedd"⁹⁹ â'r bara a dorri gan Crist yn y Cymun - "bwyta'r un bwyd ysbrydol" ac "yfed "o'r un graig ysbrydol... A Christ oedd y graig honno."¹⁰⁰ Dwywaith y tarodd Moses y graig i gael Duw i dorri syched ei bobl - yn Horeb¹⁰¹ ac yn anialwch Sin.¹⁰² Datblygodd traddodiad rabiniaid yn ystod y canrifoedd wedyn fod y graig hon yn dilyn yr Hebraeid ar eu taith, i ddileu pob syched. Mae loan yn cymryd y thema yma wrth sôn am Grist yn torri syched pawb sy'n dod ato:¹⁰³ "Pwy bynnag sy'n sychedig, deued ataf fi ac yfed."¹⁰⁴ Yn ddiweddarach, dywed Paul "i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymryd bara; ac wedi iddo ddiolch, fe'i torodd, a dweud, 'Hwn yw fy nghorff sydd er eich mwyn. Gwnewch hyn er cof amdanaf.' Yr un modd hefyd fe gymerodd y cwpan ar ôl swper, gan ddweud, 'Y cwpan hwn yw y cyfamod newydd yn fy ngwaed i. Gwnewch hyn, bob tro y byddwch yn yfed, er cof amdanaf.'¹⁰⁵ Dyma'r Iesu yn cadw'r Pasg am y tro olaf gyda'i ddisgyblion ychydig cyn iddo fynd i'r groes a sôn am 'gyfamod' sef y berthynas newydd â Duw trwyddo ef. Prif neges y darn hwn o lythyr Paul yw tynnu sylw ei ddarllenwyr at ras Duw a moddion gras. Â ymlaen i'w rhybuddio bod pobl yr hen gyfamod wedi bwyta'r manna ac yfed o'r graig ond wedyn wedi peidio ag ymateb i ras Duw. Rhaid i Gristnogion Corinth (a phob man arall) fod yn wyladwrus rhag y temtasiynau o'u cwmpas ac yn arbennig rhag eu gwendidau mewnol eu hunain, canys heb ffydd, ni byddai moddion gras yn eu gwaredu.

Dduw Dad, wrth i ni gofio am y Teulu Sanctaidd yn cael lloches yn yr Aifft, boed i'th Ysbryd Glân ein helpu i gofio am y rhai yn ein dydd ni, sy'n cael eu gorfodi i ddianc, gan adael cartref, teulu, ffrindiau ac addysg neu fywoliaeth ar ôl, i chwilio am loches a dechreuad newydd yn ein plith; fel y dangoswn iddynt yr un gofal cariadus ag a dderbyniodd y Crist-blentyn yn ei angen ef.

Cwestiynau i'w hystryried neu i'w trafod

Cafodd y teulu sanctaidd loches yn yr Aifft gan roi i'r byd cyfan rheswm i fod yn ddiolchgar. Ble mae'r 'Aifft' i'r genhedlaeth hon o geiswyr lloches a ffoaduriaid?

Sut ydych yn cymhwyso neges hanes y teulu yn yr Aifft i sefyllfa y rhai sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid yn ein gwlad a'n byd ni heddiw, yn ogystal â'r di-gartref a'r anghenus yn ein plith ni?

A wyddoch beth yw rheolau ac arferion y Deyrnas Gyfunol ar gyfer geiswyr-lloches a ffoaduriaid? A ydych am wybod?